OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2025 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Dinas Mawddwy, Gwynedd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Gorffennaf 2025* |
| *Yn dod i rym* | *21 Gorffennaf 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd bod digwyddiad perthnasol, sef digwyddiad beicio mynydd Red Bull Hardline, yn cael ei gynnal ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Dinas Mawddwy, Gwynedd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Gorffennaf 2025.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994 (p. 11). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2025 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A470 Trunk Road (Dinas Mawddwy, Gwynedd) (Temporary Traffic Prohibitions & Restriction) Order 2025

| | |
|---|---|
| *Made* | *14 July 2025* |
| *Coming into force* | *21 July 2025* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited and/or restricted by reason of a relevant event, namely the Red Bull Hardline mountain biking event, being held on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A470 Trunk Road (Dinas Mawddwy, Gwynedd) (Temporary Traffic Prohibitions & Restriction) Order 2025 and this Order comes into force on 21 July 2025.

### Interpretation

**2.** In this Order—

(**1**) 1984 c. 27. Section 16A was inserted by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994 (c. 11), section 1(1). By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw—

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

(c) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o’r gefnffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;

(d) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi’r digwyddiad perthnasol ac am resymau diogelwch;

ystyr “cyfnod y digwyddiad” (“*event period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 07:00 o’r gloch ar 21 Gorffennaf 2025 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Amwythig i Ddolgellau;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

“event period” (“*cyfnod y digwyddiad*”) means that period commencing at 07:00 hours on 21 July 2025 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means—

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**);

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

(c) any vehicle being used in connection with works to the road or lighting or traffic signs or emergency works to any sewer or to any main or apparatus for the supply of gas, water or electricity, or telecommunications in, or in any land adjacent to, the length of trunk road concerned;

(d) any vehicle used by an authorised event official in support of and for reasons of the safety of the relevant event;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Shrewsbury to Dolgellau trunk road.

(**1**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

**Gwaharddiadau a chyfyngiad**

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio nac aros ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn nac ar unrhyw lain ymyl sy'n union gyfagos i unrhyw ran o gerbytffordd y darn hwnnw o'r gefnffordd, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi parcio sifil.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y cilfannau sy'n gyfagos i'r darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt a bennir yn erthygl 2(a) a (b), yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt a bennir yn erthygl 2(a) a (b), gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn erthyglau 3 a 5 yn weithredol.

**Esemptiadau**

**7.** Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd stopio neu aros ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

(a) cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu, y frigâd dân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

(b) cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darn o'r gefnffordd; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio yn y darn o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu

**Prohibitions and restriction**

**3.** Except as provided in article 7, no person may, during the event period, cause or permit any vehicle to stop or wait on the length of the trunk road described in the Schedule to this Order or on any verge immediately adjacent to any part of the carriageway of that length of the trunk road, except on the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil parking enforcement officer.

**4.** No person may, during the event period, cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed in the lay-bys adjacent to the length of the trunk road described in the Schedule to this Order.

**5.** No person may, during the event period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle specified in article 2(a) and (b), at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road described in the Schedule to this Order.

**6.** No person may, during the event period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle specified in article 2(a) and (b), in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road described in the Schedule to this Order during such times as the restrictions referred to in articles 3 and 5 are in operation.

**Exemptions**

**7.** A person may cause or permit any vehicle to stop or wait on the length of the trunk road described in the Schedule to this Order for so long as may be necessary to enable—

(a) a vehicle to be used for police, fire brigade or ambulance purposes;

(b) a vehicle to be used in connection with any of the following operations:

(i) building, industrial or demolition operations;

(ii) the removal of any obstruction to traffic;

(iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the length of the trunk road; or

(iv) the laying, erection, alteration or repair in, or in land adjacent to, the length of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the

drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**1**);

(c) cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(d) cerbyd i stopio neu aros pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo wneud hynny;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain; neu

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

### Cymhwyso

**8.** Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiad yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### Atal dros dro

**9.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

### Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 8 niwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Gorffennaf 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(**1**) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

Communications Act 2003(**1**);

(c) a vehicle to be used in the service of a local authority in pursuance of statutory powers or duties;

(d) a vehicle to stop or wait when the person in control of it:

(i) is required by law to stop;

(ii) is obliged to stop to avoid an accident; or

(iii) is prevented from proceeding by circumstances outside that person's control.

### Application

**8.** The prohibitions and restriction in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### Suspension

**9.** Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road described in the Schedule to this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 5 is in operation.

### Duration of this Order

**10.** The maximum duration of this Order is 8 days.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 14 July 2025

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

(**1**) 2003 c. 21. Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c. 30).

## YR ATODLEN

Y darn o’r gefnffordd yn Ninas Mawddwy, Gwynedd, sy’n ymestyn o bwynt 1 fetr i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd fynediad i Benantigi Uchaf hyd at bwynt 1 fetr i’r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gilcwm.

## SCHEDULE

The length of the trunk road at Dinas Mawddwy, Gwynedd that extends from a point 1 metre east of the centre-point of its junction with the access road to Penantigi Uchaf to a point 1 metre west of the centre-point of its junction with Ffordd Gilcwm.